Talwrn y Beirdd a'r 74ain Eisteddfod Gadeiriol ym Mancffosfelen

Daeth afiaith gŵyl ddiwylliannol i Fancffosfelen unwaith eto eleni trwy ddau ddigwyddiad llwyddiannus a phrysur. Yn gyntaf cynhaliwyd Talwrn y Beirdd yn y Neuadd ar nos Iau, Hydref y 12fed, dan ofal pwyllgor yr eisteddfod a chymorth y prifardd Aneirin Karadog. Y Meuryn oedd y prifardd Ceri Wyn, a bu timoedd Beirdd Cwm Gwendraeth, Ysgol Farddol Caerfyrddin, a Thir Iarll yn brwydro am fuddugoliaeth. Cafwyd cerddi digri a ddiddanodd pawb yn y gynulleidfa, cerddi yn ymwneud â materion cyfoes, ac ambell i gerdd mwy personol ac annwyl e.e y gystadleuaeth llunio telyneg ar y testun 'Blanced'.

Roedd yn ymryson safonol, yn agos iawn o ran sgôr, ac yn y diwedd Beirdd Cwm Gwendraeth a orfu, a'r gynulleidfa yn cytuno yn bendant!

Bu'r Talwrn yn rhagarweiniad campus i'r Eisteddfod a gynhaliwyd y Sadwrn dilynol, y 14eg o Hydref. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn ar gyfer y cystadlu lleol gan ddisgyblion ysgolion Bancffosfelen, Pontyberem, a'r Fro, Llangyndeyrn. Braf hefyd sut y parhaodd y brwdfrydedd yn gyson yn sesiwn yr hwyr. Dyma'r eisteddfod fwya llwyddiannus ers sawl blwyddyn, ac aeth ymlaen ymron hyd hanner nos!

Beirniaid anrhydeddus yr eisteddfod oedd y Fns Meinir Richards, Llanddarog (Cerdd), y Fns Elin Williams, Cwm-ann (Llefaru), y prifardd Fnr Hywel Griffiths, Aberystwyth (Llenyddiaeth) a'r Fns Catrin Rees, y Tymbl (Arlunio).

Cyfeilydd di-flino yr eisteddfod oedd Jonathan Morgan, y Tymbl, sy'n gaffaeliad i gymaint o eisteddfodau lleol.

Llywydd yr eisteddfod oedd Mair Dafydd, yn enedigol o'r Banc ac nawr yn byw gyda'i theulu yn y Drenewydd. Mae hi'n ferch i Gwenda Walters sydd yn un o gymwynaswyr selog yr eisteddfod bob blwyddyn. Rhannodd Mair ei hatgofion am y pentref a'r eisteddfod mewn araith di-ffuant, a chyflwynodd rhai o wobrau'r ŵyl.

Un o uchafbwyntiau yr eisteddfod yn ddiau oedd defod y cadeirio, a gwelwyd wyneb cyfarwydd yn cipio'r wobr sef Alun Tobias, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, ond yn wreiddiol o fro Llanarthne. Testun ei gerdd 'Pont' oedd y ddamwain rheilffordd adnabyddus a ddigwyddod yng Nglanrhyd ger Llangadog ym 1987. Derbyniodd gadair risial hardd o waith yr artist Tlws Johnson, a chanmoliaeth gadarn gan y beirniad, y prifardd Hywel Griffiths, ac yn arbennig am iddo fod yn fuddugol am yr eildro yn olynol yn yr eisteddfod hon. Ymlaen at flwyddyn nesa – tri chynnig i Alun?!

Dyfarnwyd Tlws Coffa Stella Treharne i'r Llenor Ifanc buddugol i Sara Baggott o Drefach Felindre.

Cyflwynwyd Tlws Colin ac Elizabeth Smith i'r cystadleuydd â'r nifer mwya o farciau yn yr adran leol i Gwenno Lloyd, Ysgol y Fro, Llangyndeyrn.

O'i dechrau i'w diwedd bu'n eisteddfod lewyrchus a chofiadwy i ni i gyd. Bydded i barhau!

Canlyniadau y Sesiwn Leol

Pe hoffech weld mwy o luniau o'r buddugol maen nhw ar dudalen Trydar (Twitter) yr eisteddfod sef @SteddfodYBanc

YB = Ysgol Bancffosfelen YP = Ysgol Pontyberem YF = Ysgol y Fro, Llangyndeyrn

Llwyfan

Unawd Bl 2 ac iau: 1. Awen YP 2. Gruff YB, Nansi YP 3. Annest YP

Llefaru Bl 2 ac iau: 1. Alfie YP 2. Cadno YP 3. Madlen YP

Unawd Bl 3 a 4: 1. Beca YP 2. Isla ac Elena YP 3. Gwen a Llew YP

Llefaru Bl 3 a 4: 1. Beca YP 2. Llew YP 3. Elena YP

Unawd Bl 5 a 6: 1. Gwenno YF 2. Sophia YP 3. Jac YP a Kacey YB

Llefaru Bl 5 a 6: 1. Mari YP 2. George YB

Gwaith Cartref

Darlunio oed dosbarth derbyn: 1. Elspeth YP 2. Casi YP 3. Josh YP

Darlunio Bl 1 a 2: 1. Gwennan YB 2. Carys YB 3. Rose YB

Darlunio Bl 3 a 4: 1. Elena YP 2. Finnian YP 3. Orla YP

Haiku Bl 5 a 6: 1. Kacey YB 2. George YB 3. Daniel YB

Llawysgrifen Bl 5 a 6: 1. Alicia YP 2.Tanwen YP 3. Kacey YB

Ffotograffiaeth Bl 5 a 6: 1. Finnley YB 2. George YB 3. Arden a Kacey YB

Arlunio Bl 5 a 6: 1. Gwenno YF a Daniel YB 2. Sophia YP 3. Mari YP

Sesiwn Agored

Unawd oed dosbarth derbyn: 1. Martha, Caerfyrddin

Llefaru oed dosbarth derbyn: 1. Martha, Caerfyrddin

Unawd Bl 1 a 2: 1. Greta, Caerfyrddin 2. Ilan, Caerfyrddin 3. Gwern, Boncath

Unawd Bl 3 a 4: 1. Greta, Caerfyrddin

Llefaru Bl 3 a 4: 1. Greta, Caerfyrddin 2. Cadi, Caerfyrddin

Unawd Bl 5 a 6: 1. Iwan, Pontarddulais

Llefaru Bl 5 a 6: 1. Iwan, Pontarddulais 2. Carys, Caerfyrddin

Canu Emyn Bl6 ac iau: 1. Iwan, Pontarddulais 2. Ilan, Caerfyrddin

Unawd Piano Bl 6 ac iau:
1. Iwan, Pontarddulais 2. Greta, Caerfyrddin 3. Cadi, Caerfyrddin

Unawd Bl 7-9: 1. Marged Alis, Tymbl Uchaf

Llefaru Bl 7-9: 1. Gwion, Boncath 2. Marged Alis, Tymbl Uchaf

Unawd Offeryn Cerdd ac eithrio Piano Bl 7-9:
1. Sisial, Pontyberem 2. Megan, Bancffosfelen

Unawd Bl 10-13: 1. Ianto, Abergwaun 2. Celyn, Rhydaman

Llefaru Bl 10-13: 1. Tomos Morgans, ac Ianto Evans

Unawd Piano Bl 10-13: 1. Ianto, Abergwaun

Unawd Offeryn Cerdd Bl 10-13: 1. Tomos Morgans, ac Ianto Evans

Cân allan o Sioe Gerdd: 1. Celyn, Rhydaman 2. Ianto, Abergwaun

Darllen Darn o'r Ysgrythur ar y Pryd:
1. Maria, Alltwalis 2. Sulwen, Drefach 3. Ianto, Abergwaun

Canu Emyn: 1. Geraint, Upland Arms 2. Ianto, Abergwaun 3. Sulwen, Drefach

Alaw Werin: 1. Celyn, Rhydaman 2. Lili, Pontyberem 3. Ianto, Abergwaun

'Sgen Ti Dalent? (Diddanu'r gynulleidfa):
1. Gwion, Boncath 2. Celyn, Rhydaman ac Ianto, Abergwaun 3. Megan, Bancffosfelen

Her Adroddiad: 1. Sulwen, Drefach 2. Ianto, Abergwaun 3. Gwion, Boncath

Her Unawd: 1. Celyn, Rhydaman 2. Ianto Abergwaun